

# Gofalu am ein Dyfodol: Maniffesto Gan Bobl Ifanc, Er Budd Pobl Ifanc

## Maniffesto NYAS Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2026



# About NYAS Cymru

NYAS Cymru is a leading rights-based charity providing high-quality advocacy and legal representation for children, young people and adults in vulnerable situations who might be in care, subject to child protection plans or have mental health issues across Wales. Guided by Article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC), we influence and campaign to ensure that every child and young person can safely and freely express their views, wishes and feelings in all matters affecting them.

# Cynnwys

Rhagair....................................................................................................................................4
Llunio polisïau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.................................................................5
Eiriolaeth..................................................................................................................................6
Hawliau....................................................................................................................................7
Cydraddoldeb a Grymuso ..........................................................................................................8

# Rhagair

Wrth i flaenoriaethau'r rhaglen lywodraethu nesaf gael eu pennu, mae NYAS Cymru yn dymuno sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn dal i gael eu hyrwyddo, a gofalu y caiff plant a phobl ifanc yng Nghymru bob cyfle i ffynnu.

Dylai pob lluniwr polisi sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu gwreiddio ar lefelau uchaf ein Llywodraeth. Gweledigaeth NYAS Cymru yw Cymru sy'n cynnig y lle gorau i bob plentyn ac unigolyn ifanc, ble byddant yn teimlo'n rhan o wlad sy'n amddiffyn ac yn cynnal eu hawliau dynol.

Mae ein Maniffesto yn nodi pedwar blaenoriaeth eglur yr ydym yn credu y dylent fod wrth wraidd Llywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru yn byw bywyd hapus ac iach.



**Sharon Lovell MBE**
**Prif Swyddog Gweithredol NYAS Cymru**



Fel aelodau o Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc yn NYAS Cymru, sef grŵp o blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal sy'n ymgyrchu ar y cyd â NYAS Cymru, rydym yn dymuno cynorthwyo plant a phobl ifanc eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando ar ofynion ein Maniffesto, credwn y gwnaiff hynny helpu holl blant a phobl ifanc cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, nid y rhai a gaiff brofiad o ofal yn unig.

Rydym am i bob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru deimlo'n ddiogel a gallu sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Rydym yn dymuno sicrhau na fyddant yn teimlo fel pe baent ar eu pen eu hunain a bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau yn gwrando arnynt.

Dyma faniffesto gan bobl ifanc, er budd pobl ifanc, ac mae'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ofalu am ein dyfodol. Gallwch chi helpu i ofalu am ein dyfodol drwy gefnogi'r pedwar gofyniad hyn yn Etholiadau nesaf y Senedd.
Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc NYAS Cymru

**Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc NYAS Cymru**



# Llunio polisïau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc

**Nid oes unrhyw un adran benodol yn y llywodraeth â chyfrifoldeb penodol am blant a phobl ifanc. Yn hytrach, mae'n gofyn am ddull cydgysylltiedig ledled holl adrannau a gweinidogaethau'r llywodraeth. Mae'n gyfiawn sicrhau yr ymgorfforir barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau'r llywodraeth. Ond mae hynny hefyd yn cyfoethogi gwaith llunio polisïau ac yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau amrywiol y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu.**

Wrth i flaenoriaethau gwleidyddol newid a datblygu, dylid parhau i ymrwymo i wrando ar blant a phobl ifanc. Rhaid i lunwyr polisi sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu hymgorffori ar lefelau uchaf y llywodraeth, gan gyfleu eu barn, sicrhau bod swyddogion yn atebol, a gofyn bob amser, "A fyddai hyn yn ddigon da i'm mhlentyn i?".

Er mwyn cyflawni hyn yng Nghymru, rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Benodi Gweinidog dros fabanod, plant a phobl ifanc i sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc wrth wraidd gwaith Llywodraeth Cymru.
- Adolygu ac ehangu grymoedd Comisiynydd Plant Cymru.
- Gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i gyhoeddi targedau'n flynyddol ynghylch trechu tlodi plant yng Nghymru a monitro'r cynnydd o ran cyflawni hyn.
- Cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatganoli'r system cyfiawnder ieuenctid er mwyn rhoi grymoedd llawn i Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â cham-fanteisio troseddol ar blant a throseddwyr ifanc yng Nghymru.
- Creu mwy o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith i bobl sy'n gadael gofal drwy ddatblygu cynlluniau interniaethau cyflogedig a phrentisiaethau ar draws Llywodraeth Cymru, y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- Sefydlu gwasanaeth arbenigol i gynnig mynediad at wasanaethau eirioli i bob plentyn a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud ag iechyd corfforol, meddyliol neu emosiynol.

# Eiriolaeth

**Mae eiriolaeth yn cynnig llais i blant a phobl ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau plant mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt, eu bywydau a'u dyfodol, yn unol ag Erthygl 12 y CCUHP a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**

Mae sicrhau y caiff pob plentyn ac unigolyn ifanc, yn enwedig y rhai y mae eu sefyllfa yn fregus, cyfle i leisio eu barn yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelu cadarn ac effeithiol. Er bod gweithredu'r cynnig gweithredol o eiriolaeth wedi'i gyflawni, nid yw arfer da yn gyson ac mae argaeledd eiriolaeth yn parhau i fod yn anghyfartal ledled Cymru. Rydym yn dymuno sicrhau y gall pob plentyn ac unigolyn ifanc cymwys yng Nghymru gyrchu gwasanaethau eiriolaeth a sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed gan bob gweithiwr proffesiynol sy’n gwneud penderfyniadau am eu bywydau.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Adolygu’r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol a chreu system a wnaiff alluogi’r holl blant a phobl ifanc cymwys i gael eu cyfeirio’n awtomatig at ddarparwr gwasanaethau eirioli, ag opsiwn i ddewis peidio cymryd rhan.
- Gosod dyletswydd ar holl ddarparwyr cofrestredig cartrefi preswyl i blant i sicrhau bod eiriolwr sy’n ymweld â chartrefi preswyl yn cael ei neilltuo i bob cartref er mwyn sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc sy'n byw yn y cartref yn gallu sgwrsio ag unigolyn annibynnol dibynadwy.
- Creu hawl statudol i eiriolaeth ar gyfer rhieni i bob rhiant ledled Cymru sydd mewn perygl o ddod yn rhan o’r system amddiffyn plant neu sy’n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Datblygu cynnig gweithredol statudol o gymorth gan Brosiect Undod ar gyfer pob menyw ifanc â phrofiad o dderbyn gofal sy’n feichiog a/neu sydd â phlant yng Nghymru.
- Creu diffiniad statudol o ymyriadau cynnar a diogelu dyfodol y Cynllun Grantiau i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy trwy sicrhau bod hynny’n rhan o gyllid craidd i ddarparu ymrwymiad ariannu hirdymor i brosiectau a blaengareddau allweddol sy’n cael eu llywio gan y trydydd sector.

# Hawliau

**Mae'r CCUHP yn amlinellu'r hawliau sylfaenol y mae gan bob plentyn hawl iddynt, ac mae'n eu cefnogi a'u hamddiffyn i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu llawn potensial, ac mae'n hanfodol na ddehonglir bod cynnal hynny yn egwyddor arweiniol yn unig**

I rai plant a phobl ifanc, gall mynnu eu hawliau fod yn fwy heriol, felly mae'n rhaid i lywodraethau sicrhau eu bod yn gwneud popeth y gallant i ddiddymu'r holl rwystrau sy'n atal hynny. Er bod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru, rydym am i Lywodraeth nesaf Cymru wneud mwy i hybu a grymuso hawliau plant yng Nghymru, yn yr un modd â Llywodraeth yr Alban drwy Ddeddf CCUHP (Corffori) (Yr Alban) 2024.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Ymgorfforі CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol yng nghyfraith ddomestig Cymru a datblygu strategaeth gynhwysfawr ynghylch hawliau plant ar gyfer Cymru.
- Sicrhau y gall pob plentyn ac unigolyn ifanc hyd at 25 mlwydd oed ddefnyddio unrhyw wasanaeth cludiant cyhoeddus yn rhad ac am ddim yng Nghymru.
- Cynyddu'r Lwfans Personol Di-dreth er mwyn helpu pobl ifanc i dorri'n rhydd o dlodi.
- Sicrhau bod y cynnig i gael cyfweliad dychwelyd annibynnol yn hawl statudol ar gyfer pob plentyn a phob unigolyn ifanc yng Nghymru ar ôl iddynt ddychwelyd i'w cartref neu leoliad gofal ar ôl cyfnod o fod ar goll.
- Gwahardd pob math o lety heb ei reoleiddio yng Nghymru a rheoleiddio llety â chymorth i blant 16 a 17 mlwydd oed i warantu bod plant sy'n derbyn gofal yn cael gofal ble maent yn byw.
- Darparu ateb hirdymor i gynnig cymorth ariannol i bobl ifanc sy'n trosglwyddo o'r system gofal drwy sicrhau bod yr Incwm Sylfaenol ar gael i bob unigolyn sy'n gadael gofal ledled Cymru.
- Ymestyn hawl pobl ifanc i gael Ymwelydd Annibynnol hyd nes byddant yn 25 mlwydd oed yng Nghymru er mwyn sicrhau bod oedolyn sy'n ffrind dibynadwy a chyson ar gael i bobl sy'n gadael gofal wrth iddynt drosglwyddo o'r system gofal.
- Ymgorffori hawl i bawb sy'n gadael gofal yng Nghymru gael llety a gwasanaethau iechyd yn y Siarter Rhianta Corfforaethol er mwyn sicrhau y gall pawb sy'n gadael gofal gael gwasanaethau cymorth arbenigol.
- Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu blaendal rhent a bod yn warantwr i unrhyw un sy'n gadael gofal yng Nghymru sy'n dymuno byw mewn eiddo rhent preifat.

# Cydraddoldeb a Grymuso

**Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n cynnig y lle gorau i bob plentyn a pherson ifanc ddod i oed ynddo, ble gallant deimlo'n rhan o wlad sy'n amddiffyn ac yn cynnal eu hawliau, yn eu grymuso fel unigolion ac yn cynnig cyfleoedd cyfartal a theg i ffynnu a mwynhau plentyndod diogel, iach a hapus.**

Gwyddom fod rhai plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o brofi anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac anfantais strwythurol a systemig sy'n pontio'r cenedlaethau drwy gydol eu bywydau. Felly, mae'n hanfodol bod yr anghydraddoldebau hyn yn cael eu cydnabod a'u deall gan Lywodraethau ar bob lefel, a sicrhau bod polisïau wedi'u targedu ar waith er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau hyn a hybu tegwch. Rydym yn dymuno sicrhau nad oes unrhyw blentyn nac unigolyn ifanc yng Nghymru yn cael ei atal rhag cyflawni eu deilliannau gorau oherwydd anghydraddoldeb neu anfantais.

Felly er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Barhau i lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau bod 'gofal' yn nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharhau i annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod gofal yn nodwedd warchodedig ar y lefel leol fel rhan o'u hymrwymiadau rhianta corfforaethol.
- Cyflawni adolygiad o'r Siarter Rhianta Corfforaethol erbyn 2028 er mwyn deall pwy sydd wedi ymrwymo i'r addewid, sut y'i gweithredwyd yn ymarferol, a ddylid sicrhau bod ymrwymiad i'r siarter yn ofyniad statudol, ochr yn ochr â datblygu fframwaith atebolrwydd.
- Diwygio Adran 4 y Bil Hawliau Rhentwyr i'w gwneud hi'n anghyfreithlon i landlordiaid yng Nghymru wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gadael gofal sy'n dymuno rhentu eiddo preifat.
- Creu cynllun gwarcheidwaeth annibynnol statudol ar gyfer plant digwmni sy'n ceisio lloches cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd Cymru.
- Datganoli'r system fudd-daliadau i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu mwy o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i dorri'n rhydd o dlodi.
- Comisiynu ymchwiliad annibynnol ynghylch y ganran anghymesur o blant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n dod yn rhan o'r system ofal yng Nghymru, a'u profiadau o'r system ofal.
- Datblygu strategaeth i roi'r cynllun gwrth-hiliaeth ar waith ledled Cymru er mwyn mynd ati'n benodol i herio hiliaeth a gwahaniaethu a brofir gan blant a phobl ifanc. Dylai'r strategaeth hon ganolbwyntio ar eiriolaeth, cynyddu cyfranogiad a chynrychiolaeth a dulliau i herio hiliaeth a gwahaniaethu.
- Comisiynu ymchwiliad annibynnol i'r ganran anghymesur o blant a enir i fenywod ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal sy'n dod yn destun achosion amddiffyn plant awdurdodau lleol.

nyas cymru
**Tel:** 0808 808 1001
**E:** help@nyas.net

**www.nyas.net**

**policy@nyas.net**

**Copyright © 2025 NYAS Cymru.** The copyright of all materials appearing in this publication belong to NYAS (National Advocacy Service) and must not be reproduced, duplicated or transmitted without prior written consent.

Photos are posed by models. Names have been changed to protect identities.

NYAS Cymru, Units 6-7 Beck Court, Cardiff Gate Business Park, Pontprennau, Cardiff, CF23 8RP | Registered Charity No: 1012485